

# TGAU DYUNIO A THECHNOLEG



**Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad  
o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar ddiwygio  
TGAU Dylunio a Thechnoleg i'w haddysgu am  
y tro cyntaf ym mis Medi 2017**

# **Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar ddiwygio TGAU Dylunio a Thechnoleg i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2017**

## **Crynodeb Gweithredol**

Rhwng 4 Ebrill a 15 Mai 2016, ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar gynigion ar gyfer cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig i'w Gymeradwyo i'w addysgu am y tro cyntaf yng Nghymru o fis Medi 2017. Mae copi o gynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn [linc yma](#).

Ym mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg (2016)*<sup>1</sup>, a nododd y gofynion manwl ar gyfer sut y dylid dylunio ac asesu'r cymhwyster diwygiedig. Caiff y gofynion eu llywio gan yr ymatebion i'n hymgyngoriad ar-lein a chan safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr drwy ymarfer ymgysylltu ategol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ar y cynigion ac yn egluro'r penderfyniadau a wnaed gennym o ystyried yr ymatebion hyn, a adlewyrchir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg (2016)*<sup>1</sup>.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae sylwadau wedi cael eu cyfieithu, lle bo'n briodol, yn unol â iaith yr adroddiad.

Mae canrannau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

## **Cefndir**

Caiff y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg ei ddiwygio yng Nghymru i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2017, fel rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Yr unig gorff dyfarnu a fydd yn datblygu ac yn cynnig y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig yng Nghymru fydd CBAC, gan mai dyma'r unig gorff dyfarnu sydd wedi cytuno i ddatblygu cymwysterau TGAU diwygiedig wedi'u cynllunio'n benodol i'w dyfarnu yng Nghymru.

Datblygwyd y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt drwy ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys corff dyfarnu CBAC, ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau), sefydliadau addysg uwch (SAUau) a Llywodraeth Cymru.

---

<sup>1</sup> [Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg](#)

## **Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau**

### *Nodau ac Amcanion*

Cynigiwyd cyfres o nodau ac amcanion gennym ar gyfer y cymhwyster diwygiedig, a gadwyd yn fras gennym yn y Meini Prawf Cymeradwyo, gyda rhai mân ddiwygiadau.

### *Cynnwys*

Cynigiwyd gennym y dylai'r cynnwys i'w astudio a'i asesu yn y cymhwyster newydd ymdrin â phedwar maes ffocws. Rydym wedi cadw tri o'r meysydd hyn yn y Meini Prawf Cymeradwyo.

### *Amcanion Asesu*

Rydym wedi mabwysiadu'r amcanion asesu arfaethedig yr ymgynghorwyd arnynt, ond gwnaed newidiadau bach i'r pwysoliadau asesu.

### *Asesu*

Fel y cynigiwyd, ni fydd y cymhwyster yn gymhwyster haenog a chaiff ei asesu drwy asesiad diarholiad ac arholiad ysgrifenedig.

## **Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Cwblhaodd cyfanswm o 55 o ymatebwyr yr ymgynghoriad ar-lein cyfan, neu ran ohono, ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg. O'u plith, ymatebodd 53 o gyfranogwyr fel unigolion ac ymatebodd 2 ohonynt fel rhieni. Ymatebodd 30 ar ran sefydliad, ymatebodd 4 fel arall ac ni chwblhaodd 21 ohonynt yr adran hon o'r ymgynghoriad. O blith y rheini a ymatebodd ar ran sefydliad, roedd 30 yn cynrychioli ysgolion, roedd 1 yn cynrychioli arweinwyr cwricwlwm, roedd 1 yn arbenigwr diwydiant, roedd 1 yn bennaeth cyfadran technoleg ac roedd 1 yn dechnegydd dylunio a thechnoleg.

## **Nodau ac amcanion pwnc**

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig, gwnaethom gynnig y nodau a'r amcanion pwnc canlynol:

1. Rhaid i fanylebau TGAU Dylunio a Thechnoleg alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:
  - 1.1. meithrin gwerthfawrogiad o bwysigrwydd creadigrwydd ac arloesedd i arfer dylunio da;
  - 1.2. cymryd rhan weithredol ym mhrosesau dylunio a thechnoleg er mwyn datblygu'n ddysgwyr effeithiol ac annibynnol;
  - 1.3. deall egwyddorion allweddol dylunio a gwneud;


- 1.4. defnyddio eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i wneud penderfyniadau o ran dylunio er mwyn gwneud cynhyrchion o ansawdd;
- 1.5. dadansoddi cynhyrchion sydd eisoes yn bodoli a llunio datrysiadau ymarferol mewn perthynas ag anghenion, dyheadau a chyfleoedd, gan gydnabod eu heffaith ar ansawdd bywyd;
- 1.6. gweithio'n annibynnol ac yn gydweithredol;
- 1.7. dadansoddi'n feirniadol y cysylltiadau rhwng egwyddorion dylunio da, datrysiadau sydd eisoes yn bodoli a gwybodaeth dechnolegol;
- 1.8. deall yr egwyddorion technegol sylfaenol ym maes dylunio a thechnoleg o fewn eu maes ffocws penodol, gyda phwyslais ar dechnolegau, deunyddiau ac arferion sy'n datblygu.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

**Cwestiwn 1: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r nodau a'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru?**

Fel y nodir yn Siart 1 isod, roedd y rhan fwyaf (84%) o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Nid oedd 9% yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 7% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Siart 1. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 1 o'r ymgyngoriad TGAU Dylunio a Thechnoleg.



- O blith y rheini a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n cynnigion, nododd un ymatebwr ei fod "yn cytuno'n gryf â nodau'r cymhwyster hwn ond o'r farn y dylai athrawon dal i allu gweithio yn unol â'u meysydd cryfder ac arbenigedd eu hunain".
- Nododd un ymatebwr a oedd yn anghytuno y "dylai'r cwricwlwm fod yn seiliedig ar feithrin gwybodaeth a sgiliau technegol".

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu cadw'r nodau a'r amcanion arfaethedig, yn amodol ar y mân ddiwygiadau canlynol:

- yn 1.3, defnyddiwyd 'deall egwyddorion allweddol dylunio a gwneud' yn lle 'deall egwyddorion dylunio a gwneud allweddol'
- yn 1.4, defnyddiwyd 'gwneud penderfyniadau dylunio er mwyn gwneud prototeip o ansawdd' yn lle 'gwneud penderfyniadau o ran dylunio er mwyn gwneud cynhyrchion o ansawdd'
- yn 1.5, defnyddiwyd 'prototeipiau' yn lle 'cynhyrchion'
- dilëwyd 1.6.
- newidiwyd 1.6 i 1.7
- newidiwyd 1.7 i 1.8.

### **Cynnwys pwnc**

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig, gwnaethom gynnig y dylai'r cynnwys pwnc ymdrin â'r pedwar maes cynnwys allweddol canlynol:


- Dylunio cynnyrch
- Dylunio peirianeg
- Ffasiwn a thecstilau
- Dylunio cyfathrebu

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

***Cwestiwn 2: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r meysydd ffocws arfaethedig ar gyfer cymhwyster TGAU yng Nghymru?***

Fel y dengys Siart 2 isod, roedd y rhan fwyaf (71%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Nid oedd 11% yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 18% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

*Siart 2. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 2 o'r ymgynghoriad TGAU Dylunio a Thechnoleg.*



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig, nododd ymatebwyr "Rwyf o'r farn ei bod yn hanfodol cadw meysydd astudio ar wahân er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r myfyrwyr".
- O blith y rheini a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig, nododd sawl ymatebwr y byddai'n well ganddynt gadw Deunyddiau Gwydn fel maes ffocws, gydag un ymatebwr yn nodi "Rwyf yn ymwybodol bod llawer o'r farn mai pwnc sy'n seiliedig ar grefft yw'r maes hwn sydd bellach wedi dyddio. Mae'r farn hon yn hynod gul a chyfyngedig".
- Nododd un ymatebwr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig y gallai cyflwyno Dylunio Cyfathrebu "dynnu'r pwyslais oddi ar yr agweddau mwy ymarferol a thechnegol ar y pwnc sy'n hanfodol er mwyn sicrhau cymaint o ffocws â phosibl".

Rydym wedi penderfynu dileu Dylunio Cyfathrebu gan adael tri maes ffocws, sef Dylunio Cynnyrch, Ffasiwn a Thecstilau a Dylunio Peirianeg er mwyn bod yn gyson â chymwysterau UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg ac adlewyrchir hyn yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg* (2016)<sup>1</sup>.

### **3. Amcanion asesu a phwysoliadau**

Gwnaethom gynnig yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig:

Tabl 1. Amcanion asesu a phwysoliadau arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig.


Amcan	Gofynion	TGAU
AA1	Nodi posibiliadau dylunio er mwyn mynd i'r afael ag anghenion a dyheadau, ymchwilio iddynt a'u hamlinellu	10%
AA2	Dylunio a gwneud cynhyrchion sy'n addas at y diben	30%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso – <ul style="list-style-type: none"> <li>• penderfyniadau a chanlyniadau dylunio, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchion a wneir ganddynt hwy eu hunain a chan bobl eraill</li> <li>• materion ehangach ym maes dylunio technoleg</li> </ul>	20%
AA4	Arddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion dylunio a thechnoleg.	40%

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

**Cwestiwn 3: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig uchod fod yn berthnasol yng Nghymru?**

Fel y dengys Siart 3 isod, roedd y rhan fwyaf (57%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nid oedd 19% yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 23% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Siart 3. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad TGAU Dylunio a Thechnoleg.



- Nododd ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig y canlynol:
  - "Teimlaf y byddai hon yn ffordd decach o asesu ac yn hytrach na dim ond gwneud prototeip, byddant yn mynd ati o ddifrif i wneud model gorffenedig"
  - "Mae'r ganran ar gyfer yr arholiad terfynol yn briodol ar gyfer y pwnc".
- O blith y 23% o ymatebwyr a oedd naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nododd un ymatebwr "Nid oes digon o bwysoliad ar yr elfen gwneud".
- Nododd un ymatebwr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig bod yn "rhaid dyfarnu marciau i'r rheini sy'n meddu ar sgiliau yn y gallu i wneud pethau'n dda yn ogystal ag agweddau dylunio ar y pynciau".

Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaed y diwygiadau canlynol i bwysoliadau terfynol yr amcanion asesu:

- Bydd AA2 yn cyfrannu at 40% o'r cymhwyster
- Bydd AA3 yn cyfrannu at 10% o'r cymhwyster
- Yn AA1, defnyddiwyd 'nodi, ymchwilio, dadansoddi ac amlinellu' yn lle 'nodi, ymchwilio ac amlinellu'
- Yn AA2 defnyddiwyd 'Dylunio a gwneud prototeipiau a gwerthuso eu hathaswrydd at ddiben'
- Yn AA3, defnyddiwyd 'penderfyniadau a chanlyniadau dylunio mewn perthynas â chynnyrch' yn lle 'penderfyniadau a chanlyniadau dylunio, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchion a wneir ganddynt hwy eu hunain a chan bobl eraill'.



## Asesu


Cynigiwyd gennym y dylid asesu'r cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig drwy arholiadau ysgrifenedig ac asesiadau diarholiad.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

### ***Cwestiwn 4a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r cynnig uchod?***

Dengys Siart 4 isod fod 85% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nid oedd 10% yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 5% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Siart 4. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 4 o'r ymgynghoriad TGAU Dylunio a Thechnoleg.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno/cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un ymatebwr "bydd hyn o fudd i fyfyrwyr ychydig yn wannach nad ydynt cystal yn ysgrifennu ond sy'n meddu ar sgiliau ymarferol ardderchog".
- Nododd ymatebwr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig bod "dylai ddangos sut wnaeth dysgwyr creu syniadau ai datblygu i'r cynnyrch terfynol".

Rydym wedi penderfynu y dylid asesu'r cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg drwy arholiad ysgrifenedig ac asesiad diarholiad.


## Pwysoliad yr asesiadau diarholiad

Cynigiwyd gennym y dylid pennu pwysoliad asesu o 50% i'r asesiadau diarholiad ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg. Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

**Cwestiwn 4b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylid pennu pwysoliad asesu o 50% i asesiadau diarholiad ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg?**

Fel y dengys Siart 5 isod, roedd 21% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 61% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig. Nid oedd 18% arall yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 5. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 5 o'r ymgynghoriad TGAU Dylunio a Thechnoleg.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig, nododd ymatebwyr y canlynol:
  - "mae'r pwysoliad presennol ar gyfer asesiadau diarholiad, sef 60%, yn gweithio'n well ar gyfer y math o ddisgybl sydd fel arfer yn meddu ar gryfderau mewn pynciau Dylunio a Thechnoleg"
  - "Mae'r rhaniad 60/40 yn helpu'r disgyblion syddâ gallu is i gyflawni. Bydd pennu lefel o 50% yn llesteirio canlyniadau disgyblion os ydynt yn tanberfformio o dan amodau arholiad"
  - "Dylid ei gadw fel ag y mae neu ei newid i 70%/30% (arholiad)".
- Nododd un ymatebwr a oedd yn cytuno â'r cynnig "Credaf y dylai'r pwysoliad ar gyfer yr arholiad fod yn uwch".

Er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn gydnaws â'r cymwysterau UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg, rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r cynnig, felly bydd gan asesiadau diarholiad o fewn y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig bwysoliad o 50%.

## Haenu


Cynigiwyd gennym na fydd y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig yn gymhwyster haenog.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

**Cwestiwn 5: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r cynnig dylai y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg yn gymhwyster haenog?**

Fel y dengys Siart 6 isod, roedd y rhan fwyaf (80%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 13% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig ac nid oedd 7% yn cytuno nac yn anghytuno.

*Siart 6. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 6 o'r ymgynghoriad TGAU Dylunio a Thechnoleg.*



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd ymatebwyr y canlynol:
  - "Mae cael dim ond 1 papur yn decach i bob ymgeisydd"
  - "Mae haenu yn achosi dryswch i rieni a disgyblion. Mae arholiadau haenog yn achosi diffyg dealltwriaeth gan leihau gwerth y canlyniadau".

Rydym wedi penderfynu na ddylai'r cymhwyster TGAU newydd fod yn gymhwyster haenog. Rydym yn disgwyl i'r asesiad gael ei gynllunio mewn ffordd sy'n hygyrch i'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll y cymhwyster.

## **Cymorth ac Adnoddau**

Ym mhob un o'n hymgyngoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

***Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi? Rhowch sylwadau***

Ymhlith pethau eraill, tynnodd y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn sylw at y canlynol:

- \* yr angen i ddarparu gwrslyfrau ac adnoddau ar-lein;
- \* buddiannau posibl trefnu digwyddiadau DPP a hyfforddiant HMS yn ganolog;
- \* yr angen am bapurau arholiad enghreifftiol a deunyddiau asesu enghreifftiol;
- \* a defnyddioldeb atebion enghreifftiol er mwyn dynodi lefel ddisgwyliedig yr ymateb.

Byddwn yn rhannu'r pwyntiau a godwyd â'r corff dyfarnu, consortia a Llywodraeth Cymru.

## **Yr effaith ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig**

Ym mhob un o'n hymgyngoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

***Nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.***

Ar gyfer yr ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig, ni thynnodd unrhyw ymatebwyr sylw at unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig.

**Rhagor o  
wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau  
Cymwysterau Cymru  
Adeilad Q2  
Lôn Pencarn  
Parc Imperial  
Coedcernyw  
Casnewydd  
NP10 8AR  
ymholiadau@cymwysteraucymru.org